

### **Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru**

Mae'r Comisiwn yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru (CNLC) a sefydlwyd ym 1974 o dan delerau Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru, ac a ail-enwyd o dan delerau Adran 2 Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) Cymru 2013 (Deddf 2013). Mae darpariaethau Deddf 2013 mewn perthynas â'r Comisiwn yn disodli'r darpariaethau yn Neddf 1972.

Diben y Comisiwn yw:

Monitro'r ardaloedd a'r trefniadau etholiadol sy'n berthnasol i lywodraeth leol yng Nghymru er mwyn ystyried p'un a yw'n briodol gwneud neu argymhell newidiadau. Wrth gyflawni ei ddyletswyddau, mae'n rhaid i'r Comisiwn geisio sicrhau llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

Mae Deddf 2013 yn mynnu bod y Comisiwn yn cynnal arolwg o'r trefniadau etholiadol ar gyfer pob prif gyngor yng Nghymru o leiaf unwaith bob 10 mlynedd a'i fod yn cynnal ei arolygon drwy ymgynghori â phrif gynghorau, cynghorau cymuned a phartion eraill â buddiant, yn cynnwys y cyhoedd.

Mae'r Comisiwn yn meddiannu un llawr mewn adeilad swyddfeydd, ac nid yw ei swyddogaethau'n uniongyrchol gysylltiedig â bioamrywiaeth a rheoli tir, ac mae'n gosod y Comisiwn yng nghategori Grŵp 1.

Er bod yr adeilad yn cael ei reoli gan y landlord, y Comisiwn sy'n gyfrifol am ei bolisiau a'i arferion amgylcheddol mewnol ei hun sy'n gysylltiedig â'i swyddogaeth.

Mae'r Comisiwn yn dilyn polisiau sy'n ceisio lleihau'r effaith y caiff ei weithrediadau ar yr amgylchedd. Mae'n ymgymryd â nifer o fentrau i leihau effaith amgylcheddol, fel sicrhau bod pob aelod o staff yn derbyn hyfforddiant ar ddatblygu cynaliadwy. Cyflawnir hyn drwy Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd a thrwy bolisiau caffael cynaliadwy y Comisiwn.

Mae Polisi a Strategaeth Caffael Cynaliadwy'r Comisiwn yn gweithio tuag at leihau effaith amgylcheddol ei weithgareddau, ac mae hyn wedi'i gydnabod gydag ardystiad Lefel Dau, Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd a asesir yn annibynnol. Hefyd, mae'r Comisiwn wedi cyflawni lefel tri y Fframwaith Asesu Caffael Cynaliadwy yn y meysydd allweddol.

Amlinellir agenda strategol Llywodraeth Cymru yn y Rhaglen Lywodraethu. Mae'n pwysleisio'r deilliannau y mae Llywodraeth Cymru'n gweithio tuag atynt: pobl iach sy'n byw bywydau cynhyrchiol mewn economi fwy llewyrchus a blaengar; cymunedau mwy diogel a chydlynol, gyda llai o dlodi a mwy o gydraddoldeb; amgylchedd cadarn gyda defnydd mwy cynaliadwy o'n hadnoddau naturiol a chymdeithas sydd â gwir ymdeimlad â'i diwylliant a'i hanes ei hun.

Mae'r Comisiwn yn cydnabod ac yn cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddatblygu cymunedau mwy cynhwysol a chydlynol ledled Cymru, a bydd yn ymdrechu i ystyried yr ymrwymiad hwnnw wrth wneud unrhyw argymhellion.

### **Amcanion Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru**

Amcan 1: Ymgysylltu a chynorthwyo cyfranogi a dealltwriaeth er mwyn gwreiddio bioamrywiaeth ledled y penderfyniadau a wneir ar bob lefel.

Camau gweithredu :

- Sicrhau bod y sefydliad yn cadw at yr ymrwymadau a'r arferion ar gyfer cynnal achrediad Lefel 2 y Ddraig Werdd y Comisiwn
- Ymgorffori ystyriaethau amgylcheddol o fewn y swyddogaeth gaffael trwy 'Bolisi Caffael Cynaliadwy' y Comisiwn
- Darparu sesiynau cynyddu ymwybyddiaeth i staff drwy hyfforddiant a diweddariadau mewn cyfarfodydd tîm misol

Amcan 4: Mynd i'r afael â'r pwysau allweddol sydd ar rywogaethau a chynefinoedd

Camau gweithredu :

- Darparu cyfleusterau ailgylchu yn y swyddfa
- Sicrhau bod yr holl archebion argraffu yn rhai 50/50 (50% o ddeunydd wedi'i ailgylchu)
- Defnyddio cyflenwyr lleol lle bo modd
- Annog staff i ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus lle bo'n bosibl
- Polisi beicio i'r gwaith yn ei le ar gyfer staff
- Gosod goleuadau LED sy'n arbed ynni
- Darparu cyfrifiaduron sy'n defnyddio lefel isel o bŵer

Amcan 6: Sefydlu fframwaith llywodraethu a chymorth ar gyfer cyflenwi

Camau gweithredu:

- Y Prif Weithredwr yn gyfrifol am sicrhau bod camau'n cael eu cymryd mewn perthynas â bioamrywiaeth
- Darparu hyfforddiant a datblygiad i staff sydd â diddordeb mewn materion bioamrywiaeth
- Rôl Hyrwyddwr y Ddraig Werdd o fewn tîm y staff

### **Adolygu Dyletswydd S6**

Cynhelir adolygiad o Ddyletswydd S6 y Comisiwn ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2019-20 ac adlewyrchir hyn yng Nghynllun Gweithredu 2020-21